Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Haven

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Haven

Ysgol ddydd annibynnol yw The Haven sy’n darparu addysg ar gyfer hyd at wyth disgybl 11-19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASA). Yr elusen Autism Initiatives sy’n berchen ar yr ysgol, ac yn ei rheoli.

Mae chwe disgybl gwrywaidd ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Caiff pob disgybl ei leoli gan awdurdod lleol Sir y Fflint.

Bu heriau sylweddol o ran staffio er mis Ionawr 2018. Mae pob un o dîm y staff yn newydd, heblaw am y pennaeth, sydd wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2014 ac wedi ymddeol ym mis Rhagfyr 2018.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2017.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwella eu hymddygiad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn meithrin medrau gwerthfawr trwy weithio mewn grwpiau bach ac yn datblygu medrau rhyngweithio cadarnhaol gyda’u cyfoedion a staff. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn dangos hyder gydag ymwelwyr.

Bu’r pennaeth blaenorol yn darparu model rôl cadarnhaol ar gyfer staff yn ystod ei chyfnod yno. Mae hi wedi llwyddo i ddatblygu medrau staff mewn rheoli anghenion heriol y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol.

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu addas ar gyfer disgyblion. Mae staff yn defnyddio tir helaeth sy’n amgylchynu’r ysgol yn dda i gefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol.

### *Meysydd i’w datblygu*

Nid yw’r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ymddeolodd y pennaeth yn gynnar ym mis Rhagfyr 2018 ac, adeg yr ymweliad hwn, roedd trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol, yn aneglur.

At ei gilydd, mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd araf yn mynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad craidd diwethaf. Felly, mae’r argymhellion blaenorol o fis Tachwedd 2017 yn parhau.

O gofio cyfradd araf y cynnydd a chynnydd yn nifer y meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, gallai Llywodraeth Cymru fod yn dymuno ystyried na ddylai’r ysgol gynyddu nifer y disgyblion uwchlaw’r chwe disgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

**Argymhellion**

**Dylai’r ysgol:**

**A1 Gydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

**A2 Sicrhau bod arweinwyr a staff yn strwythuro trefniadau ar gyfer yr ysgol o fis Ionawr 2019**

**A3 Creu gwaelodlin o fedrau disgyblion ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion**

**A4 Gwella trefniadau i wella presenoldeb disgyblion sy’n absennol yn barhaus**

**A5 Cynyddu ystod yr achrediad sydd ar gael i ddisgyblion**

**A6 Gwella hunanwerthuso i ganolbwyntio’n fanylach ar safonau disgyblion**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael ag ychydig o feysydd o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2017.

At ei gilydd, fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd araf o ran mynd i'r afael â meysydd diffyg cydymffurfio, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysgu a ddarperir gan yr ysgol. Yn ychwanegol, nodwyd meysydd pellach o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r safon hon ac o ran lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn ystod yr ymweliad monitro hwn.

**Argymhelliad 2: Creu gwaelodlin o fedrau disgyblion ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion**

O ganlyniad i'r problemau parhaus a sylweddol o ran staffio yn yr ysgol er mis Ionawr 2018, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3: Gwella trefniadau i wella presenoldeb disgyblion sy'n absennol yn barhaus**

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 4: Cynyddu ystod yr achrediad sydd ar gael i ddisgyblion**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau ehangu ystod y cymwysterau perthnasol sydd ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol. O fis Medi 2018, estynnodd y tîm staff presennol ystod y cyrsiau achrededig priodol sydd ar gael i ddisgyblion.

Er mis Medi 2018, mae perthnasoedd gweithio da a sefydlwyd gydag ysgol annibynnol arall wedi helpu ehangu nifer y cyrsiau addas sydd ar gael i ddisgyblion. Er enghraifft, mae un disgybl bellach yn dilyn cwrs Saesneg a mathemateg TGAU yn yr ysgol hon.

Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith yr achrediad ychwanegol ar gyfer y disgyblion presennol.

**Argymhelliad 5: Gwella hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fanylach ar safonau disgyblion**

Ers yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2017, mae'r pennaeth wedi canolbwyntio ar gefnogi penodi a sefydlu tîm staff newydd. Y flaenoriaeth bresennol ar gyfer yr ysgol yw gwella ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm yn effeithiol, wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol y mae'n eu rhoi ar waith yn effeithiol (1.2)
- Darparu deunydd sy'n briodol ar gyfer oedrannau a dyheadau disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd â datganiad (1.2.(b))
- Cael polisi sy'n galluogi disgyblion i gaffael medrau mewn siarad/ gwrando/ llythrennedd/ rhifedd (1.2 (c))
- Darparu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy'n adlewyrchu ei nodau a'i hethos (1.2(f))
- Darparu rhaglen weithgareddau ar gyfer disgyblion uwchlaw oedran ysgol gorfodol, sy'n briodol i'w hanghenion (1.2.(h)i)
- Darparu cwricwlwm sy'n rhoi cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd (1.2(i))
- Paratoi disgyblion yn ddigonol ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau mewn bywyd oedolyn (1.2(j))
- Dylai addysgu alluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd, a gwneud cynnydd yn unol â'u gallu fel eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn y pynciau a addysgir (1.3(a))
- Dangos bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, a defnyddio gwybodaeth o asesiadau o'r fath i gynllunio addysgu fel y gall disgyblion wneud cynnydd (1.3(g))
- Cael fframwaith ar waith er mwyn gallu gwerthuso perfformiad disgyblion trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun, y rheiny a ddarparwyd gan rieni, a/neu yn ôl normau cenedlaethol (1.4)
- Dylai athrawon ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl mewn dosbarth i wneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion â datganiadau, a'r rheiny y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.(1.5)

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- feddu ar lefel foddhaol o ddiogelwch rhag tân, a nodwyd gan ei hasesiad risg, o dan Ran II Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith) 1997, fel y'i diwygiwyd ym 1999, a chan unrhyw adroddiad gan yr Awdurdod Tân 3(5)

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2019